TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

HABC Award Emergency First Aid at Work Level 3

Yn gryno

Y cymhwyster achrededig delfrydol ar gyfer Cymhorthwyr Cyntaf, sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau a sgiliau o asesu digwyddiad ac adnabod arwyddion a symptomau anaf a salwch i sgiliau cymorth cyntaf mewn CPR a defnyddio AED, rhoi cymorth cyntaf i anafedig sy'n tagu a delio gyda gwaedu allanol a sioc hypofolemig. Yn unol â chanllaw HSE, mae'n cymhwyso cymhorthwyr cyntaf brys yn y gweithle am 3 blynedd, ac ar ôl hynny bydd angen i chi ailsefyll y cwrs. Argymhellir hefyd eich bod yn diweddaru eich gwybodaeth yn flynyddol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sydd eisiau bod yn gymhorthwyr cyntaf brys yn y gweithle

...hyfforddi cymhorthwyr cyntaf brys mewn sefydliadau sydd angen staff wedi'u hyfforddi i'r lefel yma fel rhan o'u hasesiad anghenion cymorth cyntaf.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Cwrs undydd sy'n cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau canlynol:

Rôl a chyfrifoldebau cymhorthwr cyntaf
Gallu asesu digwyddiad
Darparu cymorth cyntaf i anafedig anymatebol
Beth i'w wneud os yw rhywun yn tagu
Cynorthwyo anafedig gyda gwaedu allanol
Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i anafedig sydd mewn sioc
Delio gyda mân anafiadau

Asesir y cymhwyster gan ddau ddull: arsylwi ymarferol trwy gydol y cwrs ac ymatebion byr i gwestiynau gosod mewn pecyn dysgwr sy'n cwmpasu gwybodaeth ategol cymorth cyntaf.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn derbyn Gwobr HABC Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith.

Gofynion Mynediad

I gofrestru ar y cwrs, bydd angen i chi fod yn 16 oed neu hyn, a dylech gael o leiaf Lefel 1 mewn Saesneg a Mathemateg.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ymhlith y cyrsiau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i gymhorthwyr cyntaf mae Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.